Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

22.02.23

**Gweithredu diwydiannol**
**Dydd Iau Mawrth yr 2ail**

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Yn dilyn gohirio'r diwrnod o weithredu diwydiannol ar y 14.02.23, mae'r ail ddiwrnod o weithredu diwydiannol gan aelodau'r 'Undeb Addysg Genedlaethol' wedi ei gynllunio bellach ar gyfer dydd Iau yr 2ail o Fawrth. Unwaith eto, yn dilyn ystyriaeth lawn o'r effaith ar y disgyblion ac mewn cytundeb gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr, fe fydd rhaid i'r ysgol weithredu yn yr un modd a'r streic ddiwethaf, fel y dengys isod.

Nid yw'r penderfyniad i gau'r ysgol yn rhannol byth yn cael ei wneud yn ysgafn neu heb ystyried yn ofalus yr effaith ar ddysgwyr a'n gallu i redeg yr ysgol yn ddiogel. Rwy'n ymwybodol o'r anghyfleustra a achosir i rieni a gwarcheidwaid, felly rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu o effaith y gweithredu ar yr ysgol. Byddwn felly:

1. **Ar agor i ddisgyblion bl.11-13.**
2. **Ar gau i ddisgyblion bl.7-10. Hoffwn gadarnhau'r trefniadau gosod gwaith ar gyfer disgyblion 7-10 isod:**

- Bydd gwaith yn cael ei adael i'ch plentyn ar lwyfan Teams (mynediad drwy Hwb).
- Bydd y gwaith yn cael ei osod yn nosbarth Teams eich plentyn ar gyfer pob pwnc yn unigol.
- Bydd angen cwblhau'r gwaith yn ystod y wers arferol.
- Ni fydd gwersi byw o gwbl ar ddydd Mawrth.

Yn naturiol, mae rhai staff yn mynd i fod yn absennol oherwydd salwch ar ddydd Iau yr 2ail ac eraill o bosib yn gweithredu'n ddiwydiannol. Ni fydd gwaith yn cael ei adael ar gyfer y dosbarthiadau ble mae staff yn absennol o'r ysgol. Ni fyddwn yn gallu hysbysu disgyblion ymlaen llaw am hyn.

Os nad oes gliniadur gan eich plentyn er mwyn cael mynediad at Teams, yna cwblhewch yr holiadur yma erbyn canol dydd Mawrth 28.02.23. Fe drefnwn ni bod un ar gael i'ch plentyn i fenthyg ar gyfer cwblhau gwaith ar ddydd Iau yr 02.03.23.

Rydym yn ymwybodol bod yna gynlluniau i gynnal diwrnodau o weithredu diwydiannol pellach. Byddwn yn eich hysbysu o effaith y gweithredu yma ar ddisgyblion yr ysgol yn agosach at yr adegau yma. Os oes unrhyw gwestiwn pellach, peidiwch oedi i gysylltu.

**PWYSIG AT SYLW RIENI BL. 9**: Yn sgìl y gweithredu diwydiannol ar yr 2ail o Fawrth, **byddwn yn symud ein noson opsiynau i flwyddyn 9 i nos Fercher yr 08.03.23**. Bydd y noson yn dilyn yr un drefn (gweler y llythyr yma) ac yn dechrau, gyda chyfarfod yn Neuadd Cilfwnnwr, yn brydlon am 6y.h.

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies